Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
MAWRTH 2010

DYDDIAD	Nos Fercher, 17eg Mawrth
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU'N BRESENNOL	Gwilym V.Thomas, Gwilym L.Williams, Nerys Williams, Huw Williams, Meurig Williams (Cad)
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1. **Croeso**

2. **Ymddiheuriadau**
   Jason Hunt, Aeron Jones, Neal Williams, Elwyn Jones

3. **Datgan Buddiant**
   HW – cae chwarae Rhosgadfan

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion fis Chwefror fel rhai cywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Parcio ger Bro Wyled/Ysgol Rhostryfan – clerc wedi derbyn ymateb gan Alun Ffred Jones AS yn dilyn ei lythyr at Gyngor Gwynedd. Nododd nad oedd y Cyngor Sir yn fodlon caniatau mannau parcio o flaen rhifau 3 a 4 Bro Wyled.
   b. Hysbysfwrdd yn Sgwar Rhostryfan – penderfynwyd fynd ymlaen i geisio cael caniatâd cynllunio i osod yr hysbysfwrdd..
   c. Safle Tir Lenwi Cilgwyn – ein hysbysu fod cais cynllunio ar y gweill ynghyd datganiad amgylcheddol ar gyfer gwaith trin trwytholch.
   d. Lein Bryngwyn – cafwyd cyfarfod ar y safle rhwng Eilir Morgan, Cae Hen, Elwyn Jones, Meurig Williams, Dafydd Gwyn ar ran y cwmni rheilffordd a'r clerc a daethpwyd i gytundeb ei bod yn iawn i gario 'mlaen i ffensio a chlirio'r llwybr. Clerc wedi gwneud cais am grant i'r Cynulliad. Hefyd manylion am grant posib drwy Gyngor Gwynedd.
   e. Ffordd Osgoi – holiadur. Daethpwyd i gytundeb y byddai'r cyngor cymuned yn nodi yn yr holiadur mai'r ffordd 'biws' fyddai'r un fwyaf delfrydol.
   f. Lloches bysiau yn Tanrallt – clerc wedi cael gwybod fod y ceisiadau yn cael sylw.
   g. MW – polyn ger y grid gwartheg wrth Ael y Bryn wedi symud.
   h. NW – manhole BT yn Rhosgadfan, tarmac wedi malu.
   i. NE – angen checio pwy sydd biau'r darn tir dros y ffordd i Penyceunant, er mwyn gofyn os ydy'r lle'n ddiogel.
   j. MW – blas drwg ar y dwr tap yn ddiweddar, angen holi'r Bwrdd Dwr be ydy'r broblem.
   k. MW – problem baw cwn ger Ysgol Rhosgadfan, cysgodfan Penyffridd etc
   l.

6. **Derbyn Adroddiadau:**.

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	11,974.77
Cyfri Siec:	2401.82
CYFANSWM	14,376.59

Taliadau:

Cyflog/costau clerc mis Mawrth/ad-daliad Viking Direct – clerc wedi talu £100 efo cerdyn, ond yn disgwyl anfoneb am £126.05 (fodd bynnag, sylwodd fod Viking wedi cymryd y swm i gyd, sef £226.05). Gwnaeth y clerc gamgymeriad wrth wneud y symiau – dylai'r cyfanswm fod yn £701.90 yn hytrach na'r £601.90 nodwyd.	475.85 226.05
Cyllid y Wlad	66.20
Addewid i Cae Chwarae Rhosgadfan	300.00
Addewid i'r Urdd	250.00
Un Llais Cymru – tâl aelodaeth	212.00
Prisiwr ardal – Mynwent Cefnfaes – anfoneb diwygiedig	287.50
Wyn Williams – cae chwarae/cysgodfannau	91.00

Wedi derbyn y swm o £1,702.50 gan Gyngor Gwynedd am ofalu am lwybrau'r ardal.

9. **Materion Cynllunio**

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO10/0092/24/LL
Disgwylfa, Rhosgadfan – cais ôl-weithredol i greu mynedfa gerbydol a chreu safloedd parcio.
C10A/0104/24/LL
1 Uwch Menai, Saron – estyniad cefn deulawr i gynnwys modurdy
Co10A/0085/24/LL
Dolellog, Dinas – estyniad deulawr ar ochr yr eiddo

Eisoes wedi'u caniatau:
CO9A/0578/24/LL
Tyddyn Derwen, Dinas – cais ôl-weithredol am ail-leoli ac ymestyn siediau amaethyddol a ganiatawyd eisoes.

Gohebiaeth:

a. Cangen Clercod Gwynedd – cyfarfod nos Iau, Mawrth 18fed
b. Gwahoddiad i gynhadledd hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd – Capel Ebeneser, Caernarfon 26.03.10 – 09.30-16.00
c. Partneriaeth Penllyn – cyfarfod i drafod y cynllun – Canolfan Cywain, Y Bala, nos Iau, Mawrth 25ain.
d. Ymgynghoriad cynhoeddus ar y broses gynllunio yng Nghymru
e. Strategaeth Tai Lleol Gwynedd 2009-2012
f. Cynulliad – llythyr mewn ymateb i'n cwynion am ddiffyg adroddiadau yn y Gymraeg

10 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. Manhole ger Dolellog wedi blocio, & gulley ger Tegfan, Rhosgadfan
b. Nododd GVT fod bwriad i dynnu'r camfeydd newydd ger Pen Muriau a gosod giatiau sy'n addas ar gyfer marchogwyr yno.
c. NE – angen sylw eto i'r gwair sy'n cael ei daflu ar y ffens a'r lôn ger tir Gadlys.
d. NE – ceir ar werth yn cael eu parcio ar ochr y ffyrdd yn Menai View ac ati